

Cylch Gorchwyl [TEMPLED]

Cyd-destun strategol

Mae [strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niwed Cymru](#), Siarad â fi 2 (2015-2022), yn nodi sut y bydd y llywodraeth yn lleihau achosion o hunanladdiad a hunan-niwed drwy ddull strategol sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd. Mae'r strategaeth yn nodi'n glir, am fod hunanladdiad yn ymateb i gyfres gymhleth o ffactorau, ac am nad yw gwasanaethau iechyd meddwl yn ymwybodol o'r mwyafrif o bobl sy'n marw o ganlyniad i hunanladdiad, fod gweithgarwch atal hunanladdiad yn gofyn am ddulliau cymunedol integredig effeithiol o fynd i'r afael ag amrywiaeth poblogaethau. Mae'r strategaeth yn argymhell y "3 C" fel y'u gelwir yn Saesneg, sef dull trawslywodraethol, traws-sector a chydweithredol.

Mae adroddiad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Llywodraeth Cymru, [Busnes Pawb](#), sef adroddiad ar atal hunanladdiad yng Nghymru (2018), yn gwneud argymhellion penodol ynglŷn â'r fforymau rhanbarthol sy'n gofyn am ddull gweithredu cyson o ran eu haelodaeth, eu strwythur a'u trefniadau adrodd (argymhelliad 30), gan gydnabod bod angen cyllid ychwanegol i gefnogi'r fforymau a gweithgarwch atal hunanladdiad (argymhelliad 31). Mae'r [cyllid ychwanegol](#) hwn wedi cael ei ddarparu bellach, a thrwyddo bu modd recriwtio cydgysylltydd cenedlaethol a thri chydgyssylltydd rhanbarthol ar gyfer hunanladdiad a hunan-niwed i gefnogi'r fforymau.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn rhoi arweiniad ar ddatblygu partneriaethau amlasiantaethol i atal hunanladdiad yn y gymuned a datblygu cynlluniau gweithredu atal hunanladdiad ([Canllaw NICE \[NG105\]](#) Medi 2018)

Diben

Mae'r strategaeth genedlaethol yn cydnabod tri fforwm atal hunanladdiad a hunan-niwed rhanbarthol¹, sydd â'r nod o wella prosesau integreiddio a

¹ Gogledd Cymru (Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr), Canolbarth a Gorllewin Cymru (Bwrdd Iechyd Powys, Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Bae Abertawe), De-ddwyrain Cymru (Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan)

chydgyssylltu rhwng pob sector a goruchwylio'r gwaith gweithredu lleol. Disgwylir i'r grwpiau helpu arweinwyr a sefydliadau lleol i ddatblygu asesiadau a strategaethau lleol, a dylent feithrin cydberthnasau cynhyrchol â'r Byrddau Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol sy'n goruchwylio'r gwaith o roi [Strategaeth Iechyd Meddwl Cymru](#), Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2012-2022, a'i [chynllun cyflawni cysylltiedig](#) (2019-2022) ar waith.

Amcanion y fforwm

- Canfod a thrafod anghenion lleol mewn perthynas â hunanladdiad a hunan-niwed, yn seiliedig ar asesiadau o anghenion lleol a gynhelir gan dimau iechyd y cyhoedd, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac eraill
- Datblygu cynllun rhanbarthol ar gyfer atal hunanladdiad a hunan-niwed, sy'n nodi gweithgareddau rhanbarthol a lleol a'r camau gweithredu a fydd yn cyflawni'r 6 amcan yn y strategaeth genedlaethol, mewn ymateb i anghenion lleol, gan sicrhau eglurder rhwng [cynlluniau gweithredu atal hunanladdiad a hunan-niwed](#) lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Rhannu gwersi a ddysgwyd ac arferion da
- Hwyluso gweithio mewn partneriaeth, a chydweithio rhwng sectorau, asiantaethau a thimau gwasanaethau
- Cydnabod cysylltiadau â rhaglenni gwaith fforymau rhanbarthol eraill a'u cyfraniadau at leihau a rheoli achosion o hunanladdiad a hunan-niwed
- Cynghori ar y defnydd gorau o adnoddau lleol, a mynediad at ffrydiau cyllido ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill (e.e.: y Loteri Genedlaethol)
- Cefnogi'r broses o gyflwyno'n rhanbarthol unrhyw wasanaethau neu gynhyrchion a all gael eu datblygu drwy ddull weithredu Cymru gyfan o leihau achosion o hunanladdiad a hunan-niwed.

Aelodaeth

Mae'r strategaeth yn nodi'n glir fod dull lleol effeithiol sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd yn hanfodol er mwyn atal hunanladdiad. Mae hyn, yn ei dro, yn dibynnu ar bartneriaethau effeithiol ym mhob sector, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, yr amgylchedd, tai, cyflogaeth, yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol, trafnidiaeth a'r trydydd sector.

Mae'r strategaeth hefyd yn argymhell bod y fforymau yn manteisio ar y trefniadau partneriaeth lleol sy'n bodoli eisoes, er mwyn sicrhau bod gweithgarwch atal hunanladdiad yn cael ei flaenoriaethu a'i gydnabod, ac felly y dylai cysylltiadau â grwpiau eraill fel Byrddau Diogelu, y Byrddau Rhanbarthol Gofal mewn Argyfwng newydd, Byrddau Cynllunio Ardal (defnyddio sylweddau), a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod yn glir. Mae 'Busnes Pawb' hefyd yn argymhell bod y fforymau rhanbarthol yn ymgysylltu â phobl sydd wedi cael profiad personol o syniadau hunanladdol, gan gynnwys y rhai sydd wedi goroesi ymgais i gyflawni hunanladdiad a phobl sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad er mwyn sicrhau bod yr holl weithgarwch atal hunanladdiad yn seiliedig ar brofiad uniongyrchol (argymhelliad 16).

Aelodaeth o'r Fforwm <i>(Rolau penodol wedi'u neilltuo i ymateb i anghenion lleol a'r dirwedd sefydliadol leol)</i>		
Sector	Sefydliad	Teitl swydd/rôl
Bwrdd Iechyd (e.e.: gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol ac eilaidd, timau iechyd y cyhoedd, gwasanaethau gofal sylfaenol, unedau achosion brys a mân anafiadau)		
Ymatebwyr cyntaf (e.e.: heddluoedd, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, gwasanaethau ambiwlans, tân ac achub, RNLI)		
Darparwyr addysg leol/addysg bellach/addysg uwch		

Awdurdodau Lleol (e.e.: gwasanaeth ymgysylltu â'r gymuned/cydllynydd ardal leol/cysylltwyr cymunedol, gwasanaethau cymdeithasol, cynllunio, trafndiaeth, tai, iechyd meddwl a llesiant)		
Sector tai cymdeithasol		
Network Rail a Trafnidiaeth Cymru		
Y trydydd sector (e.e.: arweinwyr rhanbarthol y Samariaid, MIND, PAPYRUS)		
Cadeiryddion unrhyw fforymau is-ranbarthol sy'n canolbwyntio ar hunanladdiad a hunan-niwed		
Y rhai sydd â phrofiad bywyd o hunan-niwed, syniadau hunanladdol, ymgais i gyflawni hunanladdiad neu brofedigaeth oherwydd hunanladdiad		

Yn ogystal â'r aelodaeth uchod, efallai y caiff unigolion eraill eu gwahodd i ddod i gyfarfodydd neu weithdai penodol, neu i ddod yn aelod, yn ôl cytundeb y Cadeirydd, er mwyn sicrhau bod arbenigedd a phrofiad priodol ar gael i lywio trafodaethau.

Rôl asiantaethau sy'n aelodau

Bydd pob aelod o'r fforwm rhanbarthol yn:

- Rhannu gwybodaeth am ymyriadau a gwasanaethau lleol effeithiol
- Bod yn barod i gydweithio ag eraill ar y fforwm i ehangu cyrhaeddiad neu effaith gwasanaethau ac ymyriadau
- Cyfrannu at weithgarwch cynllunio gweithredu'r fforwm, a defnyddio'r hyn a ddysgwyd drwy'r fforwm i lywio gwaith cynllunio mwy lleol yn eu sefydliadau/sectorau

- Bod yn gyfrifol am hysbysu timau a gwasanaethau allweddol eraill yn eu sefydliadau a all gyfrannu at leihau achosion o hunanladdiad a hunan-niwed, ond nad ydynt yn aelodau o'r fforwm, ac ymgysylltu â nhw
 - Cydnabod pryd y gallant gyfrannu at y camau gweithredu a nodir gan y fforwm, a rhoi arweinyddiaeth ar bwyntiau allweddol y camau gweithredu hynny
 - Datgan unrhyw fuddiant breiniedig sydd ganddynt o ran cael ffrydiau cyllido, neu unrhyw wrthdaro buddiannau o ran unrhyw eitemau ar yr agenda neu feysydd y canolbwyntir arnynt
 - Cadw at brotocol a deddfwriaeth diogelu data a chyfrinachedd wrth drafod materion lleol ynglŷn â hunanladdiad a hunan-niwed
 - Nodi dirprwy neu aelod amgen priodol os nad oes modd bod yn bresennol mewn cyfarfod a sicrhau bod unigolion o'r fath wedi cael eu briffio
 - Chwilio am y rhai â phrofiad bywyd a gwrando ar eu lleisiau
- [page 5]

Cadeirio'r Fforwm

Dylai'r fforwm rhanbarthol gael ei gadeirio gan rywun mewn swydd weithredol neu lefel uwch yn un o'r sefydliadau sy'n aelod o'r fforwm. Bydd rôl y Cadeirydd yn para am 2 flynedd gyda'r opsiwn o roi estyniad am ail dymor.

Bydd y Cadeirydd yn gweithio'n agos gyda'r cydgysylltydd rhanbarthol dros atal hunanladdiad a hunan-niwed er mwyn:

- Cynllunio'r gwaith o drefnu cyfarfodydd y fforwm yn amserol, eu rhedeg a'u gwasanaethu
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod yr aelodaeth yn parhau'n effeithiol

- Mynd i gyfarfodydd chwarterol y Grŵp Cyngori Cenedlaethol er mwyn rhoi diweddariad rhanbarthol a chysylltu â Chadeiryddion y fforymau rhanbarthol eraill
- Ymateb i ymholiadau posibl gan swyddogion polisi Llywodraeth Cymru neu weinidogion pan ofynnir i'r Cadeirydd wneud hynny

Llywodraethu ac atebolrwydd

Mae'r strategaeth genedlaethol yn cydnabod tri fforwm atal hunanladdiad a hunan-niwed rhanbarthol sy'n atebol i **Grŵp Cyngori Cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru** ym maes hunanladdiad a hunan-niwed. Mae'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol yn cael adroddiadau gan y tri rhanbarth ar weithgarwch allweddol a hynt camau gweithredu ac yn cyngori swyddogion polisi Llywodraeth Cymru ar ddatblygu mesurau i leihau achosion o hunanladdiad a hunan-niwed ar sail y data, y dystiolaeth a'r gwaith ymchwil mwyaf cyfredol a'u rhoi ar waith.

Mae'r cydgysylltwyr rhanbarthol hefyd yn gweithio'n agos gyda'r cydgysylltydd cenedlaethol dros atal hunanladdiad a hunan-niwed yng Nghydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru, sy'n paratoi adroddiadau ar y prif bwyntiau i'r Bwrdd Cyflawni a Goruchwyllo Gweinidogol ar gyfer iechyd meddwl, a gadeirir gan y dirprwy weinidog dros iechyd meddwl, sy'n rhoi diweddariadau ar weithgarwch atal hunanladdiad a hunan-niwed ledled Cymru, fel ffrwd waith allweddol sy'n ymwneud â'r strategaeth iechyd meddwl.

Amllder cyfarfodydd

Bydd y fforwm yn cyfarfod bob chwarter, a bydd cyfarfodydd yn cael eu cydlynu â chyfarfodydd chwarterol y Grŵp Cyngori Cenedlaethol, a hefyd â fforymau is-ranbarthol neu fwy lleol eraill lle y bo hynny'n gymwys neu'n ymarferol.

Cworwm

Bydd gan y grŵp gworwm pan fydd o leiaf bum sector neu asiantaeth wahanol (ynghyd â'r Cadeirydd) yn bresennol. Os na fydd cworwm o'r fath yn bresennol

Fforwm rhanbarthol atal hunanladdiad a hunan-niwed



o fewn chwarter awr i ddechrau'r cyfarfod, neu os bydd cworwm o'r fath yn peidio â bod yn bresennol yn ystod y cyfarfod, caiff y cyfarfod ei ohirio.

Adolygu

Caiff y cylch gorchwyl hwn ei ailystyried bob blwyddyn yn ystod y cyfarfod cyntaf yn y flwyddyn ariannol (C1 Ebrill-Mehefin).



CYLCH GORCHWYL y Fforwm Rhanbarthol 2022/23

